

# Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru

## Datganiad i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith

02920 491818 | 07809 412844

[www.neu.org.uk](http://www.neu.org.uk)

[www.facebook.com/nationaleducationunion](https://www.facebook.com/nationaleducationunion)

[www.twitter.com/@NEUnion](https://www.twitter.com/@NEUnion)



### Mae ffigurau NEU Cymru yn dangos bod arian trethdalwyr yn ariannu asiantaethau cyflenwi athrawon preifat

Mae Cais Rhyddid Gwybodaeth diweddar gan NEU Cymru i awdurdodau lleol wedi dangos bod bron i £ 114 miliwn wedi'i wario ar staff o asiantaethau cyflenwi athrawon preifat yn y tair blynedd academaidd hyd at fis Awst 2018.

Ymatebodd pob awdurdod heblaw am un (Sir Ddinbych) i'r cais. Dangosodd y ffigurau:

- Gwariwyd £113,948,515 ar staff asiantaethau cyflenwi yn y cyfnod uchod;
- Nid yw dau awdurdod, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd, yn cyflogi athrawon cyflenwi yn uniongyrchol, gan orfodi ysgolion i fynd i asiantaethau. Yn Wrecsam, dim ond dan rai amgylchiadau penodol y gellir talu athrawon cyflenwi;
- Nid yw wyth awdurdod yn rhoi unrhyw arweiniad i ysgolion ar gyflogi a thalu athrawon cyflenwi.

Dywedodd Neil Foden, Aelod Gweithredol Cenedlaethol o'r NEU:

“Mae'r swm a wariwyd ar asiantaethau preifat yn sgandal cenedlaethol, wedi'i gymhlethu gan y ffaith bod rhai awdurdodau lleol yn gorfodi eu hysgolion i ddefnyddio asiantaethau gan na fyddant yn cyflogi'r athrawon cyflenwi eu hunain.

“Pan fydd athrawon cyflenwi yn aml yn cael eu gorfodi i weithio am lawer llai o gyflog nag y byddent yn ei dderbyn pe baent ar gontract mewn ysgol, nid oes mawr o syndod bod ysgolion yn dweud bod prinder athrawon cyflenwi yn cynyddu. Rwyf wedi dod ar draws achosion lle mae Penaethiaid ysgolion cynradd bach gwledig wedi rhoi'r gorau i fynd i gyfarfodydd a chysiau oherwydd nad oes athrawon cyflenwi ar gael i ymdrin â'u habsenoldeb.

“Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol mewn datblygiad proffesiynol i athrawon ond bydd yr agenda cyffrous hwn yn methu os na all ysgolion eu rhyddhau oherwydd nad oes athrawon cyflenwi ar gael.

“Rydym yn galw ar bob awdurdod lleol i sicrhau bod trefniadau cyflogres yn eu lle i ysgolion allu cyflogi eu hathrawon cyflenwi eu hunain, a'u talu ar y gyfradd ddyddiol briodol.

“Cyn hir bydd gormod o rieni yn gofyn: “pwy sy’n dysgu fy mhlentyn heddiw?” Ni fyddant yn hoff iawn o’r ateb.”

**Cyswllt:**

**Neil Foden**

**Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard,  
Caerdydd CF24 5PJ.**

**Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07809 412844 e-bost: [cymru.wales@neu.org.uk](mailto:cymru.wales@neu.org.uk)**

**Nodyn i olygyddion:**

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.
- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.